## Sut y bydd eraill yn gwybod fod hyn yn golygu fod eich plentyn yn awtistig

Nid yw'r freichled yn datgan bod eich plentyn yn awtistig, mae'r llun a'r cerdyn yn gwneud hynny. Mae gan yr holl adnoddau adnabod batrwm unigryw ar ffurf 'A' fel a ganlyn:



Rydym wedi hyrwyddo'r patrwm hwn ac wedi darparu gwybodaeth am awtistiaeth i ystod o fusnesau'r stryd fawr, sefydliadau cymunedol a darparwyr gweithgareddau hamdden. Mae'n bosibl y byddant yn gweld fod unigolyn sy'n gwisgo'r freichled yn awtistig.

Fe ddylech fod yn ymwybodol y gall y cyhoedd hefyd wybod beth mae'r patrwm yn ei olygu, ac felly os nad ydych am i eraill wybod fod eich plentyn yn awtistig yna ni ddylech ei ddefnyddio.

AwtistiaethCymru.org
AutismWales.org

CLILC • WLGA

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government




## GWYBODAETH BELLACH

I weld y wybodaeth yr ydym wedi'i chyflwyno i fusnesau a sefydliadau ynghyd â rhagor o adnoddau cefnogi, ewch i:

AwtistiaethCymru.org

neu anfonwch e-bost at:

AwtistiaethCymru@WLGA.gov.uk

# Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr gyda phlentyn awtistig

## Pam ein bod wedi datblygu'r cynllun hwn

Dywedodd nifer o rieni a gofalwyr plant awtistig wrthym fod eu plant yn ei chael yn anodd i fynd i fusnesau'r stryd fawr a gweithgareddau cymunedol, ac yn aml nid yw staff yn y gwasanaethau hyn yn deall eu hanghenion.

Awgrymwyd ein bod yn creu dull er mwyn i'r teuluoedd roi gwybod i eraill fod plentyn yn awtistig, a chysylltu hyn gyda'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

Nid oeddem yn siŵr a fyddai hynny'n dderbyniol i rieni a gofalwyr ac felly fe aethom ati i gynnal arolwg ac roedd y canlyniadau'n dangos y byddai'r mwyafrif o rieni a gofalwyr yn croesawu'r dull hwn.

## Sut y gallwch roi gwybod i eraill fod eich plentyn yn awtistig

Rydym wedi darparu 3 opsiwn, gallwch ddewis i beidio â'u defnyddio o gwbl, neu eu defnyddio i gyd neu rai ohonyn nhw:

- breichled
- cerdyn plastig
- delwedd ar gyfer eich ffôn symudol

Nid yw'r cynllun hwn yn orfodol, nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r adnoddau adnabod. Os nad ydych eisiau i eraill wybod fod eich plentyn yn awtistig yna ni ddylech eu defnyddio.

## Sut fyddwch chi'n gwybod os yw sefydliad yn rhan o'r cynllun

Fe fydd busnesau a sefydliadau yn arddangos sticer yn y ffenestr gyda'r un patrwm i roi gwybod i chi eu bod yn ymwybodol o awtistiaeth.

## Natur y cynllun

Mae'r cynllun yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ynglŷn ag awtistiaeth ymysg ystod o sefydliadau ac yn galluogi unigolion i ddatgan eu bod yn awtistig i eraill.

Nid yw'n darparu unrhyw ostyngiadau o ran cost na buddion eraill.

## Costau

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun ac, felly, mae'n rhad ac am ddim i chi.



